y Dinesydd

*Cylchgrawn Newyddion Cymraeg Caerdydd   Rhif 177   4 Hydref 1991   65c i ni — am ddim i chi*

# Colli tafod Radio'r Ddraig Goch

Erbyn heddiw does dim Cymraeg i'w glywed ar donfeddi radio annibynnol Caerdydd.

Ar 15 Medi darlledwyd y rhaglen Cadw Cwmni, a gyflwynwyd ers 1985 gan Derec Brown, am y tro olaf ar Touch AM.

Cychwynnodd radio annibynnol yng Ngaherdydd ym mis Mawrth 1980 gyda CBC yn darlledu rhaglen Gymraeg chwe diwrnod yr wythnos, a bwletinau newyddion Cymraeg bob dydd.

Dros y blynyddoedd cwtogwyd ar yr oriau, ac ym 1985 pan ddaeth Radio'r Ddraig Goch i'r adwy, dwy raglen yn unig oedd ar ôl.

Ers hynny, collwyd un o'r ddwy raglen Gymraeg, a tua 18 mis yn ôl bu brwydro ffyrnig gyda'r Awdurdod Darlledu Annibynnol (yr IBA) ynglŷn â bwletinau newyddion Cymraeg.

Yn ôl Eirion Lewis, cyn-Swyddog Cymru yr IBA, "mi fynnon ni eu bod nhw'n cadw'r bwletinau newyddion Cymraeg – mae hynny'n rhoi cymhariaeth o beth oedd y sefyllfa o dan yr IBA a beth yw'r sefyllfa nawr".

Dileodd y Ddeddf Darlledu newydd yr IBA, a rhoddwyd gofal am agweddau darlledu sain annibynnol Prydain i'r Awdurdod Radio yn Llundain, sydd heb gynrychiolaeth yng Nghymru. Yn sgil hyn ac unrhyw rwystr statudol, diflannodd y bwletinau Cymraeg ym 1990.

Pan rannodd Radio'r Ddraig Goch eu tonfeddi FM ac AM eleni, symudwyd y rhaglen Cadw Cwmni ar nos Sul i orsaf Touch AM ar y donfedd ganol.

Dywedodd David Vick o'r Awdurdod Radio wrth y Dinesydd mai "ethos y llywodraeth ynglŷn â radio yw os nad yw'r gynulleidfa'n hoffi rhaglenni, wnan nhw ddim gwrando, ac mai gwaith rheolwyr y gorsafoedd radio yw penderfynu pa raglenni mae'r cyhoedd yn dymuno eu clywed, ac os ydyn nhw'n anghywir bydd eu cynulleidfaoedd yn rhoi'r gorau i wrando." Dywedodd hefyd nad oes rheidrwydd ar orsafoedd annibynnol yng Nghymru ddarlledu rhaglenni Cymraeg.

Erbyn hyn mater i'r darlledwyr eu hunain yw beth yw cynnwys a natur y rhaglenni.

Yn ôl John Gripton, Rheolwr Rhaglenni Dirprwyol Touch AM, mae'r orsaf am barhau i ddarlledu yn Gymraeg mewn rhaglen ddwyieithog newydd o'r enw Wenglish bob nos Wener rhwng 8 a 9pm. Dywedodd "rydym yn ystyried hon fel gwell rhaglen gan ei bod yn cael ei hanelu at Gymry Cymraeg a phobol di-Gymraeg sydd am ddysgu'r iaith."


"Bydd yn cael ei chyflwyno gan Chris Needs, fu eisoes yn gwneud gwaith radio Cymraeg, ac yn cynnwys gwers Gymraeg lle fydd gwestai yn cael ei wahodd i'r stiwdio, ac yn dysgu chwech ymadrodd Cymraeg newydd bob rhaglen, ac yn eu defnyddio mewn sgwrs. Bydd y rhaglen hefyd yn chwarae cerddoriaeth Gymraeg a Saesneg."

Disgwyl Touch AM yw y bydd y rhaglen yn denu pobol rhwng 30 i 40 oed, un ai Cymry Cymraeg neu ddysgwyr.


Pan awgrymodd y Dinesydd wrtho bod y rhaglen honno yn wahanol yn ei hanfod i'r hen raglenni Cymraeg oedd wedi ei hanelu'n benodol at Gymry Cymraeg, dywedodd nad oedd y rhaglen yn ennill gwrandawyr, a bod neb yn gwrando arni.

Roedd ffigurau JICRAR, y corff sy'n casglu ffigurau gwrando i'r gorsafoedd radio annibynnol, yn dangos bod llai na 5000 o bobol yn gwrando ar

i dudalen 3



**Pam talu £19.95?**




## Gwyddoniadur y degawd!

*1,000 o dudalennau*
*180,000 o eiriau*
*2,000 o luniau,*
*mapiau, diagramau a ffotograffau*

Gostyngiad o £6.00 off

*Dim ond **£13.95** i siopwyr personol yn unig tra pery'r stoc.*

Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd CF1 4AA

ger y New Theatre

Ar agor 6 diwrnod yr wythnos, 9.00-5.30.
Ar agor yn hwyr ar gyfer siopa Nadolig:

Gwener, **29** Tachwedd 1991
Iau, **5** Rhagfyr 1991
Iau, **12** Rhagfyr 1991
Iau, **19** Rhagfyr 1991

Ar gau 25-27 o Ragfyr 1991

**ORIEL**



## LLYFRAU • NEWYDD

**PLANT**
Slici a Slac £1.25
Tomos y Tanc £1.25
Sam Tân £2.99
Slot 23 – Y Llyfr £3.95

**OEDOLION**
Rhwng y Cŵn a'r Brain
gan Elgan Philip Davies £4.50
Amser i Farw
gan Jonathan Ross £4.50

HUGHES



## KWIK DESPATCH

i gludo dogfennau neu barseli
i unrhyw fan ym Mhrydain
yr un diwrnod

Cysyllter ag:
Alun Parry ar 0222 481015


yr un dydd – bob dydd!



**Taith Genedlaethol 1991: o 18 Medi hyd 9 Tachwedd**

## THEATR
*Gorllewin Morgannwg*

**Yn cyflwyno comedi gerddorol**




**Cyfarwyddwr: TIM BAKER Cynllunydd: CARYS TUDOR**

**"... diddanwch pur ..."**

MANON EAMES SARA HARRIS-DAVIES
GILLIAN ELISA

## CAERDYDD
**Neuadd Llanofer**
**Nos Wener, 18 Hydref 7.30 p.m.**

**Pris: £2.50 (Gostyngiadau £1.50)**

**Tocynnau: Neuadd Llanofer, Romilly Road. 0222-342022**

Dyffryn

Noddydd taith genedlaethol "ADAR O'R UNLLIW..." gyda chymorth

Cydnabyddwyd nawdd taith "ADAR O'R UNLLIW..." o dan Gynllun i Hybu Nawdd gan Fusnes y Llywodraeth a weinyddir gan Gymdeithas Nawdd i'r Celfyddydau gan Fusnes (ABSA).

Derbynia Theatr Gorllewin Morgannwg arian cyhoeddus gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Celfyddydau Prydain Fawr, Cymdeithas Gelfyddydau Gorllewin Cymru, Awdurdod Addysg Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg a'r Swyddfa Gymreig.



## TEIPYDD

Bydd y Teipydd yn aelod o dîm bach yn yr Adran Olygyddol a bydd yn teipio llythyrau, adroddiadau a chofnodion i aelodau'r adran honno. Mae profiad o ddefnyddio prosesydd geiriau'n angenrheidiol, a disgwylir i'r Teipydd dreulio hanner i (h)amser yn teipio a chywiro llawysgrifau ar y prosesydd geiriau. Rhoddir hyfforddiant yn ôl yr angen.

Cyflog y swydd fydd £7,397 (sef gwaelod Graddfa 2 UCNS), gan esgyn drwy godiadau blynyddol i £9,106. Y dyddiad cau yw 24 Hydref ac mae manylion pellach a ffurflenni cais ar gael gan Wasg Prifysgol Cymru, 6 Stryd Gwennyth, Cathays, Caerdydd CF2 4YD (0222 231919)



## Mudiad Ysgolion Meithrin

Gwahoddir ceisiadau am swydd
**SWYDDOG DATBLYGU**
(rhan amser)
**I ARDAL DE MORGANNWG**
(ardal Caerdydd yn bennaf)

Am fanylion pellach a ffurflen gais cysyllter â:
Y Cyfarwyddwr, Mudiad Ysgolion Meithrin,
145 Albany Road, Caerdydd CF2 3NT
0222 485510

# N E W Y D D I O N

## OMBWDSMON NEWYDD CYMRU



Penodwyd Elwyn Moseley, 48 oed sy'n briod â thri o blant, fel y Comisiynydd Gwein-yddiaeth Leol newydd i Gymru gan yr Ysgrif-ennydd Gwladol David Hunt AS.

Elwyn Moseley ar hyn o bryd yw Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gweinyddol a Chyfreithiol a Dirprwy Brif Weithredwr Cyngor Dinas Caerdydd. Cyn hynny bu'n Gyfreithiwr y Ddinas.

Yn ei swydd newydd bydd yn ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd am gamweinyddu gan awdurdodau lleol Cymru, yr awdurdodau heddlu, yr Awdurdod Tir, a rhai agweddau o waith Datblygu'r Canolbarth a'r Awdurdod Afonydd.

Dywedodd Toger Paine, Prif Weithredwr Caerdydd bod y penodiad yn "gydnabyddiaeth haeddiannol i Elwyn Moseley ac i Ddinas Caerdydd".Mae'n briod a chanddo dri o blant

## HELYNT Y BEVERLEY

Penderfynodd Dathyl Evans a Manon Jones, oedd yng nghanol hanes Welsh Not gwesty'r Beverley rai wythnosau yn ôl, fanteisio ar gynnig Welsh Brewers i fynd â'r mater ymhellach drwy dribiwnlys mewnol.

Cyfarfu Dathyl a Manon â'r cwmni ar 1 a 2 Hydref, gyda Gill Stephen o Gymdeithas yr Iaith yn bresennol, i ddadlau eu hachos.

Yn ôl Gill Stephen nid oedd y cyfarfodydd wedi mynd yn dda iawn, a bod agwedd swyddog Welsh brewers yn amheus. Dywedodd yntau bod y Beverley wedi derbyn cwynion gan gwsmeriaid bod y ddwy yn siarad Cymraeg, a bod y rheolwr John Bell o'r herwydd wedi gorfod gofyn iddynt beidio â gwneud. Gofynnodd Gill Stephen a fyddai'r un peth wedi digwydd pe bai cwsmeriaid wedi cwyno am ddyn du yn gweithio y tu ôl i'r bar.

Dywed Gill Stephen y bydd cyhoeddi penderfyniad y tribiwnlys yn bolisi swyddogol i Welsh Brewers.


## Y NEWYDD GYDA'R HEN

Cychwynnodd Dr Eurwyn Wiliam ar ei ddelytswyddau fel Curadur yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan ddydd Mercher diwethaf, 1 Hydref.

Mae Eurwyn Wiliam yn 42 oed ac yn hanu o Fynytho ger Pwllheli, ac ymunodd â'r Amgueddfa Werin ym 1971 fel Is-geidwad Adeiladau, ac er 1980 bu'n Geidwad yr Adran Adeiladau a Bywyd Cartref.

Cyhoeddodd nifer o astudiaethau ar bynciau'n ymestyn o fythynnod gweithwyr a melinau, i hanesion a nodweddion pensaernïol yr adeiladau yn Sain Ffagan. Ef oedd arweinydd y cynllun i ailgodi tai teras Rhydycar o Ferthyr Tudful yn yr Amgueddfa Werin.

Dywedodd Eurwyn Wiliam "Rwy'n edrych ymlaen ar y sialens o adeiladu ar boblog-rwydd yr Amgueddfa Werin, sy'n cynrychioli hanfod y diwylliant Cymreig".



Y cynllun mawr nesaf yn Sain Ffagan fydd ailgodi a dodrefnu Neuadd y Gweithwyr o Oakdale yng Ngwent ym 1992, ynghyd ag agor gweithdy teiliwr, melin lifo, ac adeiladu bwthyn â'i waliau o fwd.

## COLLI CYFAILL MWYN O LYDAW



Bu farw Jo Cam, athro ffiseg ac aelod o staff hŷn ysgol Notre Dame de Lourdes yn Lesneven yn Llydaw.

Bu'n flaengar rhwng 1976 a 1991 yn sefydlu'r cyfnewid gydag Ysgol Gyfun Rhydfelen.

Yn 50 oed, yn ddyn heini, ifanc yr olwg, bu farw'n sydyn o drawiad ar y galon tra'n seiclo gyda'i fab fore Sul 1 Medi.

Fel arwydd o barch tuag ato, aeth pedwar ohonom – Mali Rowlands, Geraint Price, Hywel a Gwyneth Jeffreys – fel cyn-athrawon o Rydfelen, i'r Offeren a gynhaliwyd iddo yn Lesneven.

Roedd y dyrfa fawr, a lanwai'r eglwys hyd at ei sang, yn arwydd o'r syfrdandod a deimlid yn y gymdogaeth o'i farwolaeth di-rybudd.

Gweinyddwyd y gwasanaeth gan yr offeiriad a briododd Jo a Marie-Ange ym 1965, ac a fedyddiodd y pedwar plentyn a anwyd iddynt.

Roedd y gwasanaeth yn rhyfedd o gofiadwy; yn greulon o afaelgar yn y modd y daeth trigolion y pentre gwledig at ei gilydd i fynegi mor gignoeth o gynil eu tristwch o golli cymydog parod ei gymwynas, athro cydwybodol, gweinyddwr am-ryddawn a phenteulu a estynnai groeso di-ail a diffael i bawb.

Wrth ddychwelyd i Gymru, bu'r pedwar ohonom yn ail-fyw y profiadau mawr a rannwyd gan blant ac athrawon ysgolion Rhydfelen a Notre-Dame de Lourdes, ac yn sylweddoli'r cyfraniad di-sôn-amdano a wnaed am 15 mlynedd gan Jo i gynnal y brwdfrydedd cych-wynnol. Coffa da i'w enw, a mil diolch am y fraint o'i adnabod.

o dudalen 1

**Colli tafod Radio'r Ddraig Goch**

raglenni Cymraeg Radio'r Ddraig Goch a Touch AM, allan o gynulleidfa bosib o dri-chwarter miliwn.

Yn ôl Derec Brown, roedd y rhaglen yn denu cynulleidfa ifanc gyson, ac yn cael derbyniad da iawn gan blant ysgol Caerdydd a grwpiau pop Caerdydd. Roedd hefyd yn meithrin ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith disgyblion ysgolion Saesneg. Roedd y ddarpariaeth hefyd yn wyneb cosmetig o leiaf i wreiddiau Radio'r Ddraig Goch a Touch AM yng Nghymru.

"Rôn ni aml yn cael tua 40 o alwadau ffôn wrth bobol ifanc oedd am gystadlu yn ein cysatdlaethau ni. Gofynnodd sawl mam i fi os oedd 'da fi siârs yn British Telecom!"

"Pan symudwyd Cadw Cwmni i Touch AM o Red Dragon, rwy'n siwr gollon ni lot o'n cynulleidfa am na gawson nhw – na ni – wybod am y newid tonfedd tan y funud ola bron, a beth bynnag doedd cynnwys Cadw Cwmni ddim wir yn ffitio mewn â chynnwys 'mwy-Radio-2-na-Radio-2' Touch AM".

Holwyd Jophn Gripton a oedd Cadw Cwmni y math iawn o raglen i'w darlledu ar Touch. Atebodd ei bod "yn bwysig iawn i ni pan lansiwyd yr orsaf ein bod yn rhoi canran o'n hamser darlledu i raglen Gymraeg."

"Roedden ni'n awyddus i'r rhaglen lwyddo, ond ar ddiwedd y dydd rydyn ni'n orsaf fasnachol a fedrwn ni ddim fforddio cynnal rhaglen sy ddim yn denu cynulleidfa".

"Os oedd ganddi ddilyniant gref ymhlith y Cymry Cymraeg byddai popeth yn iawn, ond doedd ganddi ddim".

Os na fydd y rhaglen Wenglish yn denu cynulleidfa Gymraeg, bydd Touch AM ond yn fodlon ystyried cynnal rhaglen Gymraeg newydd pe bai rhywun yn cynnig syniad am raglen Gymraeg a fyddai'n lwyddiant masnachol. Ar hyn o bryd, does gan yr orsaf ddim cynlluniau i ddarlledu rhaglen gwbl Gymraeg, ond dywed John Gripton y byddai'n agored iawn i syniadau am raglenni o'r fath, ac y dylid cysylltu ag e yn Touch AM. Blwch Post 99, Caerdydd.

***Ymateb: tudalen 9***

## ACHOS YR IAITH

Ar 30 Hydref bydd Steffan Webb, Gill Stephen a Mair Stuart, tri aelod o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, yn ymddangos eto gerbron Llys y Goron yng Nghaerdydd i ateb cyhuddiadau o achosi difrod i siop Boots fis Awst. Gohiriwyd y ddau wrandawiad gwreiddiol oherwydd diffyg adnoddau cyfieithu ar y pryd.

## BANCIWR YN DRYSORYDD

Penodwyd Aled Williams yn drysorydd newydd y Dinesydd i olynu Richard Hall Williams mewn cyfarfod o Bwyllgor Cyllid y Dinesydd ar 18 Medi.

Daw Aled o Gapel Iwan ger Catell Newydd Emlyn, ac mae'n byw bellach yn Danescourt yn Llandaf.

Yn fachgen sengl, mae ei ddiddordebau'n cynnwys nofio, cadw'n heini a chymdeithasu yn gyffredinol.

O fod yn fab i fferm, Aled bellach yw Rheolwr Gweinyddol Banc y National Westminster ym Mhencoed. Dechreuodd ei yrfa yng nghangen y banc yn Aberteifi, a chael profiad o weithio yng nghanghennau'r banc yn Aberystwyth, Abertawe, Dociau Caerdydd, a Swyddfa Ranbarthol y banc cyn ei benodiad i'w swydd bresennol yn gynharach eleni.

## COED Y GOF YN CYFIEITHU AR Y PRYD

Arloesodd cymdeithas rieni ysgol Coed y Gof drwy ddarparu cyfarpar cyfieithu ar y pryd yn ystod eu cyfarfodydd.

Defnyddiwyd yr offer yng nghyfarfod blynyddol y llywodraethwyr ddiwedd tymor yr haf wedi penderfyniad rhieni Ysgol Coed y Gof oedd bod y cyfarfodydd i gael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu.

Anfonwyd llythyr gan y gymdeithas rieni at yr Awdurdod Addysg i holi yngiŷn â'r posibilrwydd o ddarparu offer cyfieithu ar y pryd ar gyfer holl gyfarfodydd swyddogol yr ysgol.

## Colofn Shân

Rhyw fanion sydd wedi fy nharo yn ystod y mis dwytha 'ma sydd gen i yn y golofn y tro yma. Hynny mae'n debyg, am nad oes dim amgenach wedi digwydd i mi. Ond rhyw feddyliau a digwyddiadau digon syml sy'n aml yn ychwanegu at batrwm lliwgar bywyd.

Yr haf yma mae'r amgueddfa yn Sain Ffagan wedi cyhoeddi llawlyfrau newydd deniadol lliwgar, yn Gymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg ac Is-Almaeneg.

Syndod a siom i mi yw cynifer o Gymry glân gloyw sy'n dewis prynu un Saesneg er i mi eu hannog i brynu un Cymraeg. "Dan ni'n siarad Cymraeg yn iawn, ond mi fydd yn haws i ni ddilyn y llyfryn Saesneg". Anodd gen i gredu mai'r cwsmer sydd bob amser yn iawn.

Troi'r stori rwan at rywbeth arall. Ni fum ar wyliau eleni, ond fe gefais ddwy daith a deuddydd hynod ddifyr, arbennig a bendithiol. Dau ddiwrnod o dan amgylchiadau cwbl wahanol, ond y ddeudro yn teimlo bod fy nghlustiau yn feinach, fy ngolwg yn graffach a'm holl synhwyrau fel petaent yn fwy effro nag arfer.

Y daith gyntaf, treulio diwrnod yng Nghydweli yn ymweld â ffrind fu dan lawdriniaeth drom. Ychydig ddyddiau yn unig wedi dychwelyd o'r ysbyty, pan y dylai fod yn llesg ac yn gorffwys, roedd wrth ei waith ac yr un mor siriol ag erioed. Lladd amser aeth â mi o gwmpas yr ardal, taith fer hamddenol. Roedd natur ar ei gorau a'r haul yn gynnes. Gwyddai enw nid yn unig pob fferm ,ond pob cae hefyd. Cefais ddarlith ar gaeau o gwmpas Castell Cydweli, a'r enwau yn adlewyrchu'r gyflafan fu yno – Cae Marchog er enghraifft. Galw heibio i deulu a ffermai yn yr hen hen ffordd – dim arlliw o'r dulliau modern ar gyfyl y lle.

Gofynnodd y ffermwr i mi "sut mae adnabod dyn da?" Wyddwn i ddim. Yr ateb "wrth ei gerddediad", hynny yw osgo ei gerddediad yn adlewyrchu ai cerdded y llwybr cul a wnai ai peidio. Rhyfeddu hefyd at y croeso a'r cyfarch a oedd ar bob llaw i'm ffrind wrth fynd drwy Gydweli. Pawb yn llawenhau o'i weld allan unwaith eto. Teimlo'n ddiolchgar ac yn werthfawrogol o'r dydd hwn yng nghanol bwrlwm, undonog yn aml, y dyddiau arferol.

A'r ail ddiwrnod, teimlo fel cael newid a dianc. Cychwyn ben bora am y Gelli Gandryll, ond fe aethon ni ar goll. Ond pa ots? Diwrnod i'r brenin oedd hi i fod. Teithio drwy wlad hardd Mynwy a Brycheiniog – Y Fenni, Capel y Ffin, Llangynidr a thros y mynydd i chwilio am y Walnut Tree, cyn cyrraedd Y Gelli. Diwrnod arall hynod, yn rhodd o'r hwrli bwrli arferol.

'Lladd amser' medda fi yn gynharach. Ond ydi o'n ddeud ofnadwy? Lladd amser – y peth prina sy gennym. Blinder, diflastod ai peidio, mae'n well mi greda, lenwi pob awr a phob dydd â phrysurdeb, boed yn ddiflas neu ddifyr.

## MENNA'N MYFYRIO

Hel atgofion oni'n ddiweddar ar ôl darllen dau lyfr o hunangofianne – y naill gen ffarmwr o Gwm Cynllwyd, Seimon Jones, a'r llall gen nyrs o Glwyd, Annie Boumphrey.

Meddwl yr oni fel nhwthe am yr anghyfiawndere a'r lladd di-ddiwedd sydd yn yr hen fyd 'ma, a'r brwydro a'r atgasedd sy'n dod yn nes adre bob gafael.

Efo'r holl hanes diweddar 'ma am Hedd Wyn, bardd y Gader Ddu, gafodd ei ladd yn Ffrainc yn y Rhyfel Byd Cyntaf, dwi'n cofio darllen darn o lyfr Seimon Jones am ei Ddewyth Sim, oedd ar faes yr un gad â phan laddwyd y bardd.

Roedd Dewyth Sim wedi cael llyfr gen ei fam cyn gadael dillad ffermio a'u ffeirio am lifre milwr – enw'r llyfr oedd Oriau gyda Iesu, a phan fydde awr o gyfyng gyngor yn dod mi fydde'n troi at y llyfr hwnnw am nerth i fyw drwy'r frwydr.

Roedd Hedd Wyn ynte'n troi at yr Iesu yn ei farddoniaeth delynegol ac yn poeni am hogie'r Traws oedd yn cael eu lladd a'u hanafu – prin y meddyliai y deuai tynged i'w ran ynte hefyd.

Disgrifia Annie Boumphrey ryfel Rouen fel lle oedd â "drewdod ac arogl marwolaeth...a byddai rhai dynion yn aml heb freichiau na choesau...eu hwynebau bron wedi eu chwythu a'r croen yn hongian...ond roeddent dal yn fyw", ac mae 'na wastad obaith lle mae 'na ddyn byw.

Fedra i fel heddychwraig ddim dirnad fod gen ddyn galon i wneud y ffasiwn beth i ddyn arall, ond fel y dydodd milwr o Iwgoslafia'n ddiweddar wrth anelu gwn at ei genedl-ddynion ei hun "Dwi ddim isio lladd, ond dyne ydi Gwleidyddiaeth.

**PRENTIS** Y CYLCHGRAWN CENEDLAETHOL I DDYSGWYR
DECHREUWYR A PHROFIADOL

THE NATIONAL MAGAZINE FOR WELSH LEARNERS
BEGINNERS AND ADVANCED

Ar gael mewn siopau llyfrau Cymraeg neu drwy'r post. Danfoner £5 ynghyd â'ch enw a'ch cyfeiriad:
Available in Welsh bookshops or by post. Send £5 together with your name and address to:

GWASG TAF
99 HEOL WOODVILLE, CAERDYDD. CF2 4DY
© (0222) 221778

# GWILYM ROBERTS YN HAUL Y GAIMAN

**Mae Gwilym Roberts erbyn hyn wedi cyrraedd Tŷ'r Cymry yn y Gaiman ym Mhatagonia lle fydd yn treulio blwyddyn ymhlith Cymry'r Wladfa. Oddi yno, dyma'i epistol cyntaf at y dinasyddion a adawodd ar ôl...**




Pa hwyl sy erbyn hyn a minnau wedi bod o gartre ers mis bellach, ac ar drothwy'r gwanwyn tra'ch bod chi yng nghanol yr hydref yn yr "hen wlad" chwedl pobl y Wladfa.

Mae hi wedi bwrw unwaith yn o iawn ers i mi gyrraedd, a hynny o ganol nos Sadwrn i ganol nos Sul, ac mi arllwysodd hi i lawr gan fy atgoffa o Gymru'n syth!

Bûm i â diddordeb mewn mynd i'r Wladfa ers pan roeddwn i'n tuag un ar bymtheg oed, ar ôl clywed Ifan Tomos, golygydd Y Drafod, sef papur Cymraeg y Wladfa, yn siarad fel gŵr gwadd mewn noson lawen yn ysgol Cathays ar ddiwedd mabolgampau'r Urdd yn stadiwm y Maendy.

Dotiais i at ei Gymraeg gydag acen Sbaenaidd, a phenderfynais wedyn ddarllen popeth am y Wladfa yn y gobaith y byddwn un diwrnod yn ymweld â'r lle.

Ar ôl i mi ymddeol flwyddyn yn ôl, dechreuais i sôn am newid cyfeiriad – ond i ba gyfeiriad, dyna'r cwestiwn.

Feddyliais i erioed y byddai'r ffôn yn canu a llais Shân Emlyn yn gofyn i mi os ôn i â diddordeb mewn mynd i'r Wladfa. Gyda sydynrwydd a synnodd bawb – a minnau hefyd – hedfanais i o Heathrow ar fore Sadwrn y 10fed o Awst i Buenos Aires! Nid oeddwn yn gallu credu fy mod i'n mynd nes i mi eistedd yn yr awyren.

Ond mynd yr ês, a hedfan i gasglu mwy o deithwyr ym Mharis, cyn croesi'r Iwerydd i Caracas yn Venezuela. Sôn am daith – aeth hi ymlaen ac ymlaen ac ymlaen. Dechreuais flino, ond o'r diwedd daeth Caracas i'r golwg.

Roedd hi'n ddiwrnod hyfryd i hedfan, a phopeth yn glir. Roedd y tirwedd a'r tai yn edrych yn wahanol iawn i beth roeddwn i wedi ei weld erioed o'r blaen.

Glanion ni yn ddiogel – ond naw wfft i faes awyr Caracas. Twll o le, a channoedd o bobol yn prysuro i bob cyfeiriad â'r lle yn edrych yn tsiep a di-addurn. Yn sicr doedd e ddim yn deilwng o brif ddinas gwlad.

Gorfu i mi aros yno am bedair awr, pedair awr diflas o eistedd a gorffwys fy mhen yn ami ar fwrdd caffe sigon syml, cyn cael ein galw at gât oedd yn arwain at yr awyren.

Nifer o bobl yn cael eu ffrisgo, ond dim ond cael fy mag wedi ei archwilio cês i! Doeddwn i ddim yn edrych yn gymeriad digon peryglus siwr o fod!

Teithio wedyn am chwe awr yn y tywyllwch cyn cyrraedd maes awyr Ezeisa ym Muenos Aires. Cyrraedd yno am 6.45 yn y bore. Roeddwn i wedi newid amser fy wats fwy nag unwaith ers gadael Heathrow, felly dyn a ŵyr faint oedd hi o'r gloch yno erbyn hynny!

Llwyddais i fynd drwy'r toll heb gael fy ffrisgo na chael fy mag wedi ei archwilio, ac allan â mi drwy'r gât.

Yn sydyn, gwelais ddyn ifanc yn dal darn o bapur, ac mewn llythrennau breision gwelais fy enw arno! Diolch byth, roedd rhywun yno i'm cwrdd a'm rhoi ar ben y ffordd gan nad oes gair o Sbaeneg gen i!

Roedd Buenos Aires yn dawel amser yna o'r bore, ond cês i fy nhywys yn ddiogel ar siwrnai dau fws i ardal Flores ble roeddwn i'n mynd i aros gyda chwpwl o'r enw Ioan Eilir Nichols a'i wraig Nellie. Y ddau yn hannu o'r Gaiman, ond wedi bod yn byw ym Muenos Aires ers dros ugain mlynedd. Roedd eu Cymraeg yn loyw a chefais i groeso cynnes ar eu haelwyd.

Ar y daith dau fws o faes awyr Ezeisa cês gyfle i siarad gyda'm tywysydd sef Fernando Williams, bachgen a fuodd yn dysgu Cymraeg ar gwrs blwyddyn yng Ngholeg Harlech, ac ar gwrs haf Llambed, cyn dychwelyd i Buenos Aires i astudio pensaernïaeth. Roedd ei deulu'n byw yn Nhrelew.

Bûm i ar aelwyd teulu'r Nichols tan fore dydd Mawrth, pan hedfanais o Buenos Aires i Drelew. Roeddwn i'n edrych ymlaen at adael Buenos Aires gan fod cymaint o lygredd awyr yno, y lle'n flêr iawn gyda sbwriel ym mhob man, a phob pafin a ffordd bron yn anwastad ac yn beryglus bywyd i unrhyw un!

Roedd y bysiau a'r ceir yn rasio ar hyd y strydoedd fel doedd dim yfory ar gael, a synais fod cyn lleied o ddamweiniau!

Wrth agosáu at Drelew, cês fy nghip cyntaf ar y paith! Wel, sôn am dirwedd diffaith! Ac i feddwl bod yr hen Gymry wedi mentro i'r fath le ym 1856.

Ymestynai'r paith i bob cyfeiriad yn dywod a cherrig a phrysglwyni bach gwydn a phigog yn tyfu ar ei draws ym mhob man.

Roedd gweld Trelew o'r awyr yn peri dipyn o syndod hefyd, gan ni feddyliais weld lle mor fawr. Roedd adeiladau uchel yma hefyd, a llawer o dai yn ymestyn allan i'r anialwch.

Glanion ni'n ddiogel, a dechreuais i feddwl sut oeddwn i'n mynd i gyrraedd pen fy nhaith, sef ym mhentre'r Gaiman yn y Dyffryn. Ond doedd dim rhaid poeni, gan i ddynes ddod ataf a dweud "Gwilym Roberts ydych chi?".

Roedd hi wedi dod i gwrdd â'i chwaer oedd ar yr un awyren â mi a chês bâs ganddyn nhw i'm cartre newydd am y flwyddyn nesa. Siaradai'r ddwy yn berffaith rugl yn y Gymraeg.


Aethom allan o Drelew ar hyd ffordd garegog a arweiniai i'r Gaiman. Roedd y tirwedd yn wastad ac yn llwm.

Daeth y Gaiman i'r golwg ac eto roedd hi'n olygfa ddieithr i mi – tai unllawr, a'r stryd fawr mor llydan. Trodd y modur i Stryd Michael D Jones, ac aros o flaen bwthyn bach to sinc. Fy nghartre am y deuddeng mis nesa. Daeth fy nghymdogion newydd, Tegai Roberts a Hubert Jones – 81 oed ac yn enedigol o'r Andes – i'm croesawu mewn Cymraeg croyw i'r Gaiman. Roedd y peth yn anhygoel. Roedd fel bod nôl yn fy stryd fy hunan yn Rhiwbeina ble mae 'na lawer o Gymry'n byw!

Agoron nhw ddrws y tŷ i mi, a chamais i fewn i ddechrau pennod newydd yn fy hanes, yn mentro dros dir a môr i Dde Amerig i weld drosto'i fy hun faint oedd hi o'r gloch ar y Gymraeg yn y parthau hyn.

# PENCERDD Y PÔS CROESEIRIAU

NIA HALL WILLIAMS



Pan ddaeth Gwyn Lewis Davies draw i goffla ar fore gwlyb o Fehefin roedd yn anwesu man tyner ar ei gorun. "Codi'n rhy sydyn 'nes i" meddai, "wedi anghofio bod y bondo uwch y mhen i".

Erbyn deall, y rheswm am agosrwydd bondo a phen oedd ei ymdrechion (llwyddiannus) i osod llawr newydd yn nho ei gartref.

Mewn oes sy wedi rhoi cynhaliaeth fras i B&Q a'u tebyg, does dim i'w ryfeddu ato yn y fath DIY. Ond wedi nodi hynny mae'n rhaid nodi hefyd bod Gwyn yn tynnu at ei bump a phedwar-ugain oed, oedran sy, fel rheol, yn caniatái i ddyn ymollwng i'w gadair freichiau yn hytrach nag ymbalfalu ar ei gwrcwd mewn cornel cyfyng. A dim ond tamaid rhwng dau bryd oedd gosod y llawr; cyn hynny bu'n codi silffoedd o amgylch wal ei stydi.

"A'r gegin sy'n mynd i'w chael hi nesa gen i. Dwi am roi unedau-ar-olwynion dan y byrddau gwaith i arbed i mi blygu i berfedd pob cwpwrdd. Pan ga'i amser!"

Mae'n treulio peth amser yn y gegin honno gan ei fod yn edrych ar ôl ei hun ers colli ei wraig, Mary. Er mai 'syml' a chyffredin yw ei ddisgrifiad o'i ddoniau coginiol, nid dyna dystiolaeth ei wahoddedigion. Mae ei wisg yn deyrnged i'w ofal a'i chwaeth – gyda phlyg fel ymyl cyllell fawr yn ei drowser, a'i grys bob amser yn gymar perffaith i siaced a thei.

Ymddeolodd ym 1966 a symud i Gaerdydd o Dywyn, Meirionnydd lle bu'n brifathro ar yr ysgol uwchradd am gyfnod o bymtheg mlynedd, ac yn arweinydd brwdfrydig côr cymysg yr ardal. Deil gysylltiad agos ac ymarferol â'r ysgol a'r gymdeithas hyd heddiw.

"Dwi wedi bod yn lwcus" meddai, "wedi cael gwaith wrth fy modd ac yn aml wedi bod yn y lle iawn ar yr adeg iawn".

Ar un o'r adegau hynny fe gafodd wadd, yn ddeugain oed, i gynnig am swydd Pennaeth Coleg Addysg Brys yn Harrogate, coleg oedd yn darparu hyfforddiant i gyn-filwyr ar ddiwedd y rhyfel diwethaf.

"A dim ond y flwyddyn gynt gês i 'mhenodi'n arolygydd ysgolion gydag awdurdod addysg West Riding. Rhaid bod rhywun wedi gweld rhywbeth yn y Davies 'na".

Yno, ac yntau'n iau na rhai o'i fyfyrwyr, treuliodd bedair blynedd hapus dros ben yn eu cwmni.

"Dynion aeddfed oedden nhw. Pob un â'i fryd ar ddysgu. Ac yn grefftwyr hefyd – roedd hynny'n handi iawn. Dwi'n cofio brici er enghraifft yn troi ati i godi twlc mochyn ar gyfer astudiaethau gwyddor gwlad.

Prin bod angen cofnodi mai dysgu crefft newydd wnaeth y Prifathro a'r grefft honno wedi ei hymarfer wrth iddo adeiladu wal brics i warchod ei ardd ffrynt.

Er iddo dreulio'i fywyd-gwaith yn myd addysg, bu ond y dim i'r byd hwnnw ei golli, a thrwy hynny Gymru i ennill entrepreneur. Yn ddeunaw oed penderfynodd roi'r gorau i astudio ac ymuno â'i frawd hynaf yn ei fenter newydd, sef agor siop ironmonger yng Nghymer Afan, ble ganed y ddau. Pentref o ddwy fil o boblogaeth, gyda dwy afon (Corrwg ac Afan), dwy stesion (un i'r GWR a'r llall i reilffordd y Rhondda and Swansea Bay), a chwe pwll glo oedd Cymer Afan ar y pryd.

"Ac yn ardal ddiwylliedig – y glowyr yn gweithio tan ddaear yn ystod yr wythnos ac yn dal eu tir â'r rheolwyr yn y Sêt Fawr ar y Sul".

Prif gwsmeriaid y siop oedd y glowyr gyda'u galw am offer ac am carbide fesul tunnell ar gyfer eu lampau. Dysgodd lawer am ddynol ryw.

"Roedd rhaid bod yn wyliadwrus rhag i neb bwyso gormod ar yr Hen Gownt". Daeth i wybod a deall llawer am dlodi yn ystod Streic Fawr 1926. Ddwy flynedd yn ddiweddarach cododd ei bac a'i siâr yn y busnes (ffynnodd hwnnw hebddo) er mwyn cynnal ei hun drwy gwrs gradd Cemeg a Ffiseg yng Ngholeg Abertawe. "I brofi i mi fy hun 'mod i'n gallu gwneud y fath beth".

Fe waneth, wrth gwrs, a chymryd swydd ar ei union fel athro yn ysgol bentref y Rhŵs, "am 'mod i isio priodi".

Efallai mai dyma pryd y daeth ei wraig newydd (hithau'n ferch i un o lowyr diwylliedig y Cymer) i wybod o ba radd yr oedd rhuddin ei gŵr; i arbed teithio deirgwaith yr wythnos mewn Austin 7 i labordai Caerdydd, penderfynodd droi bathrwm eu byngalo yn labordy personol. Cododd silffoedd (efallai mai dyma'r cyntaf o gyfres) ac yno, rhwng y brwsis dannedd a'r sebon, y cyflawnodd yr arbrofion a fu'n sail i radd MSc ar y testun 'Reaction Velocity of Bi-molecular Reactions'.

O holi'n dyner am ymateb ei wraig i'r defnydd o'i bathrwm deallwyd ei bod yn gwbl hapus, "pan welodd hi bod y bath yn rhydd."

Mae diddordeb Gwyn Lewis Davies mewn gwyddoniaeth mor fyw ag erioed fel y gŵyr aelodau Cymdeithas Wyddonol Caerdydd. Dim ond un o gymdeithasau'r ddinas sy wedi elwa o'i aelodaeth, ac yn aml o'i wasanaeth fel swyddog, ydi hon ac mae yntau'n cydnabod ei chyfraniad i fwrlwm bywyd y dref sydd yn ei dyb ef, ac yn groes i ffasiwn, yn lle da i fyw.

"Mae 'na gymaint i neud – cyngherddau, dramau a'r capel, wrth gwrs".

Mae'n Annibynwr cadarn, ffyddlon, ond fel "John Gwilym Jones dwi'n derbyn yr egwyddorion ond yn amheus o rai credoau. Does dim rhaid cael yr elfen goruwchnaturiol, gan gynnwys y gwyrthiau, i gynnal ffydd. Mae mawredd Crist yn ddigonol hebddyn nhw. Ond cofiwch, rhydd i bawb gredu be fynnon nhw".

Yr un cymysgedd o sicrwydd barn a goddefgarwch sy'n nodweddu ei agwedd at Gymdeithas yr Iaith, sefydliad arall sy'n agos at ei galon. Mae'n gefnogwr selog ac yn gyfrannwr ariannol heb gytuno â phob gweithred. Ac ar waethaf ymdrechion mynwesol fel D Myrddin LLoyd i'w dywys i gorlan y Blaid, mae'n gwadu ei fod yn anifail politicaidd er bod ei 'groes' yn y lle iawn adeg etholiad.

Yr iaith a'i pharhad sy'n bwysig, a'i llenyddiaeth yw ei ddileit. Cafodd ei flas cyntaf o ddarllen wrth bori drwy lyfrgell

ei dad, prifathro ysgol Cymer Afan. Yn dair ar ddeg oed darllennodd *Literary Taste*, Arnold Bennett, tra roedd hefyd yn astudio chwe llyfr gosod Cymraeg ar gyfer cystadleuaeth-ar-ffurff-arholiad yn Eisteddfod Genedlaethol y Barri 1920 (daeth yn ail o hanner can cystadleuydd). A dyna fan cychwyn ei ddiddordeb ym meirdd a llenorion Cymru.

"I nhad mae'r diolch am hynny. Roedd o'n gynganeddwr ardderchog, hunan-ddysgiedig ac am i minne ddysgu. Saesneg oedd iaith ei ysgol – dyna oedd y drefn – a Ffrangeg oedd y dewis yn ysgol Port Talbot, ond ganddo fo cês i addysg Gymraeg. 'Darllen hwnna, machgen i' – dyna'r geiriau dwi'n gofio".

Heddiw mae ganddo ei lyfrgell ei hun, rhai miloedd o gyfrolau yn rhesi taclus o amgylch ei stydi. Yno bydd yn darllen Williams Parry a Phantycelyn, ac ambell i gyfrol fel *A Short History of Time*, llyfr sy wedi trechu llaweroedd.

Yno hefyd y bydd yn llunio croeseiriau; nid yn eu datrys ond eu hadeiladu, fel ei furiau brics a'i loriau pren, o'r blwch sylfaenol i'r cliw olaf. Bu wrthi ers deng mlynedd yn cyfrannu croesair misol i'r Dinesydd dan yr enw Ap Lewsyn. Mae ei gliwiau'n frith o ddyfyniadau o weithiau RWP ac eraill, a'i anagramau'n ddigon dyrys i yrru ei ddarpar-ddatryswyr o'u co. Llynedd cyhoeddwyd cyfrol o 60 o'i groeseiriau, a chyn hir bydd rhaid meddwl am *Cyhoeddiadau Ap Lewsyn II*.

Bob yn ail â'r holl weithgareddau bydd yn manteisio ar fymryn o hamdden i daro i Gaerfaddon i weld ei ferch Morfydd a'i theulu, teulu sydd wedi rhoi iddo ddau ŵyr ac wyres a thri gor-ŵyr. Er i un o'r to ifanc ei holi "Ydych chi, taid, yn cofio'r dinosaurs", mae'n amlwg ei fod yn dotio arnyn nhw, fel ag y mae ar ei wyres ieuengaf, Seren, merch ei fab Peter sy'n byw ar ynys Tarawa yn y Môr Tawel. Does dim modd iddo daro i'w gweld hi, ond ddwy flynedd yn ôl cododd docyn rownd-y-byd er mwyn treulio amser efo hi a'i rhieni.

Er ei holl wybodaeth wyddonol, mae Gwyn yn dal i ryfeddu at ei allu i godi'r ffôn i alw Peter a'i glywed yn ateb yn glir o ben draw'r byd; a'r cyfuniad hwnnw o ddeallusrwydd arbenigwr a syndod lleygwr sy'n swyno'i gyfeillion.

Fe fydd ambell un ohonyn nhw'n taro ar ei draws wrth iddo roi tro rownd y bloc cyn noswylio; yr hoelen olaf wedi ei tharo am y dydd, y cliw olaf wedi ei lunio a'r llyfr diweddaraf yn barod wrth ochr y gwely. Gobaith ei gydgerddwyr fydd ei ddenu i'w cartref i sgwrsio, am ei fod yn anad dim yn gwmni da.

Ar ôl teirawr yn ei gwmni ar fore gwlyb o Fehefin, doedd dim amheuaeth o hynny. Ond bu'n rhaid torri'r sgwrs yn ei blas er mwyn iddo ruthro (dan gysgodi'r man tyner dan ymbarel) i wneud tamaid iddo'i hun cyn mynd â chyfaill methedig am dro yn y car.

Dyma un sy'n gwneud nonsens o unrhyw ymdrech i bennu ffiniau ar gyfnodau oes dyn. Mae ei egni'n ddigon i godi cywilydd ar lencyn cyhyrog chwarter ei oed.


*Cyhoeddwyd gyda chaniatâd y Faner*

TRINIAETH HARDDWCH
Stiwdio SIONED
**Ffoniwch 693487**
**6 Old Church Road, Yr Eglwys Newydd**

y Dinesydd
Golygydd: Siân Emlyn, 5 Yr Hen Dy, Heol Fair, Llandaf, Caerdydd CF5 2EE. 0222 567483
Cyhoeddwyd gan: Gwasg Cyhoeddiadau Tortfol, 3 Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2L. 0222 521162, 0222 596243 (hysbysebion); fax 0222 521553
Dyddiad olaf derbyn copi ar gyfer rhifyn Tachwedd: 23 Hydref 1991. ©Y Dinesydd 1991

# CROESAIR AP LEWSYN

## Rhif 113 Hydref 1991



**Ar Draws**

5. Bu Mai o ddefnydd i wneud taflegrau (6)
8. Mathew sy'n aflonydd a didrefn (8)
9. Maelio sy'n well gan Thomas na chusanu (7)
10. Deg o'r gloch yn taro'r gwaelod (5)
11. Gwnest arwydd llygeidiog anwyddocaol (9)
13. Pedair awr ar hugain wedi bod am dro o gwmpas, wele'r awdur yn ymddangos (8)
14. Esbonio sy'n dadlenni nad *ng* yw pob *NG*, ee sylwer ar Bangor, dyngarol ac hunangar. Gwyliwch! (6)
17. I'w gadw rhwng mab a merch (3)
19. Hanfod natur y peth (3)
20. Cymryd gwynt (6)
23. Yr oedd dwy ffarm i ddod i mewn i'r llun a gafodd ymyl amdano (8)
26. Cydymaith Morus y Gwynt (4,1,4)
28. Bachgen "gwledig" a fu yn fardd-bregethwr ym Mhorthmadog (5)
29. Tynnaf (7)
30. Aeth o le da gan droi i berthyn i'r gymdeithas (8)
31. "Llef uwch adlef" (6)

**I Lawr**

1. Cawell i gario rhodd i'r lleisiwr dwfn (6)
2. Ein cyndadau (7)
3. Y mae eto'n benagored, yn ôl hen amod ddyrys (9)
4. Chwiw bersonol (6)
5. Caed bil N. am wneuthur carthenni (8)
6. "Bara angylion Duw"?
7. Y prif brelad (8)
12. I'r gŵr (3)
15. Hanner cant yn aredig maes Nora cyn pryd (9)
16. Fe gest friw (8)
18. Cylchgrawn sy'n drysor i'r Wesleaid (8)
21. Hen frenin a geisiodd roi terfyn ar Gymru (3)
22. "Gelynion sydd o'm cylch yn cau" (7)
24. Iaith sy'n rhoi gwres i rai sy'n ei deall (6)
25. Heb ôl troed (6)
27. Mae hi'n symud y staen (5)

### CYSTADLEUAETH RHIF 112

Derbyniwyd chwech ymgais. Roedd un gwall yn un ohonynt a'r pump arall yn hollol gywir, sef eiddo Mair Tysul Jones, yr Eglwys Newydd; E C Rees, y Barri; S Evans, y Maendy; N Mathias, Castellnewydd Emlyn; a John Hughes, Llanisien. Enw E C Rees a dynnwyd ar hap o'r het ac iddo/iddi yr aiff y tocyn llyfr y mis hwn.

### CYSTADLEUAETH RHIF 113

Tocyn llyfr £5 eto. Eich enw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed erbyn 21 Hydref os gwelwch yn dda.



# y Sêr

## EIRY PALFREY YN SYLLU I'R DYFODOL



### ARIES

Mae'r pwyslais astrolegol ddechrau'r mis ar eich priodas neu eich perthynas agos, cadwch ffrwyn ar eich tymer a'ch tafod, mae ffraeon yn bosib iawn. Ar ôl yr 8fed ymlaen mi ddylech elwa'n ariannol – os oes ar rywun ddyled i chi cewch eich talu'n anrhydedus cyn diwedd y mis.

### TAURUS

Fel rheol y gwanwyn yw'r amser traddodiadol i sbrinclinio, ond mi fyddwch chi'n gwneud hynny'r hydref hwn, yn mynnu twrio i bob twll a chornel, a dod o hyd i'r holl bethau aeth ar goll dros y misoedd diwethaf. Byddwch yn clywed newyddion da yn ymwneud â phlant.

### GEMINI

Mae'r sêr yn gwenu ar eich gwaith y mis hwn, byddwch yn barod am lafur caled, ond bydd yn talu ar ei ganfed ond i chi fwrw iddi'n gydwybodol. Cymrwch ofal o'ch iechyd, rydych yn debygol o ddal annwyd neu lwnc tost os na fyddwch yn ofalus – efallai mai siarad llai yw'r ateb!

### CANSER

Bydd eich cartref yn bwysig iawn i chi'r mis hwn, efallai y byddwch chi'n gweithio o'ch cartref, neu yn ei harddu – symud tŷ hyd yn oed? Fe ddylech glywed newyddion da ddechrau'r mis, a chael llwyddiant ar ei ddiwedd. Mae damweiniau'n bosib – cymrwch ofal!

### LEO

Mis lwcus iawn, fe ddylech glywed newyddion da naill ai trwy lythyr neu ar y ffôn. Fe ddylech elwa'n ariannol y mis hwn hefyd a hynny o gyfeiriad cwbl annisgwyl, gwnewch yn fawr ohono, a'i roi yn y banc, mae cyfnod o gyni o'ch blaen cyn diwedd y gaeaf rwy'n ofni.

### VIRGO

Rydych ar drothwy cyfnod lwcus iawn yn eich bywyd, a hen bryd hefyd meddech chi – mae pethau wedi bod yn eithaf anodd i chi'n ddiweddar. Nawr yw'r maser i baratoi ar gyfer y dyfodol a gosod seiliau cadarn i chi gael cymryd mantais o'r lwc sy'n dod i chi.

### LIBRA

Hwn yw'r mis gorau yn y flwyddyn i chi pan fo'r haul yn eich arwydd, ond eleni mae'n well hyd yn oed nag arfer, gellwch ddisgwyl i bob math o bethau da syrthio i'ch côl. Ond un gair bach o gyngor, ceisiwch gadw ffrwyn ar eich tafod, rhag i chi ddigio rhywun pwysig.

### SCORPIO

Bydd y mis yn dechrau'n eitha tawel, ond o'r 16eg ymlaen hyd ddiwedd y mis bydd y planedau'n garedig iawn tuag atoch chi, ac mi ddylai'r holl bethau da y bu'r astrolegwyr yn addo ers tro gael eu gwireddu o'r diwedd. Gellwch ddisgwyl sawl sioc hefyd, pleserus ac i'r gwrthwyneb!

### SAGGITTARIUS

Mis i ganolbwyntio ar eich gyrfa yw hwn. Mae'n bosib y bydd gŵr mewn awdurdod yn eich gwobrwyo am eich gwaith caled, mae dyrchafiad neu godiad ariannol yn bosib. Ceisiwch wneud eich gwaith cartref yn drwyadl a pheidiwch â gadael dim i siawns, bydd angen i chi fod ar flaen eich traed y mis hwn.

### CAPRICORN

Ydy, mae hi wedi bod yn hen gyfnod anodd yn ddiweddar, ond wir-yr mae pethau'n dechrau gwella o'r diwedd. Byddwch yn barod am sioc (pleserus) cyn diwedd y mis. Efallai y byddwch yn clywed am enedigaeth. Cadwch lygad barcud ar eich sefyllfa ariannol – efallai y cewch chi fil annisgwyl.

### AQUARIUS

O'r 6ed ymlaen byddwch yn dechrau ar gyfnod mwy ymarferol ac adeiladol yn eich bywyd. Fydd pethau ddim yn hawdd, ond o leiaf nawr cewch chi gyfle i gynllunio'n ofalus tuag at ddyddiau gwell. Bydd yr holl waith caled (a diflas) y byddwch yn ei wneud nawr yn talu ar ei ganfed maes o law.

### PISCES

Mae tuedd ynnoch chi ar hyn o bryd i fod yn freuddwydiol, popeth yn iawn os oes seiliau i'ch breuddwydion, ond peidiwch â gwastraffu'ch amser yn breuddwydio am yr amhosib. Cadwch gyfrinachau i chi'ch hun, rhag ofn y bydd cyfaill yn eich twyllo a'ch gadael i lawr.

# Hel Meddyliau

## HUW ETHALL

Un o storïau gorau Tegla, greda i, ydi stori Samuel Jones, Yr Hendre yn diolch am ei gynhaeaf. Fferm gil haul oedd Yr Hendre lle'r oedd yn haws tyfu eithin ac ysgall na thyfu ŷd. Roedd fferm Y Fron yn wahanol, a Mr Herbert yn gallu diolch bob dydd am wenau Rhagluniaeth.

Nid ryfedd felly i Mr Herbert, pan ddaeth adeg i drefnu'r Wyl Ddiolch am y cynhaeaf, awgrymu gwisgo'r capel bach am y tro cyntaf erioed â'r blodau a'r llysiau a'r ffrwythau hyfrytaf fel arwydd o haelioni'r Brenin Mawr tuag atynt oll. Ond cadw ei feddyliau iddo'i hun wnaeth Samuel Jones.

Cyn dydd yr ŵyl daeth pawb i edrych ar yr olygfa ysblennydd yn y capel bach ac ni amheuodd neb na fyddai mynd ar y canu a'r gweddïo y diwrnod canlynol. Pan welodd Samuel Jones y capel hardd, meddyliodd "Duw Mr Herbert Y Fron ac nid ei Dduw ef oedd Duw'r trugareddau toreithiog hyn", ac aeth adref yn drwm ei gam a phwl ei lygad.

Ni chysgodd eiliad y noson honno gan weld trugareddau'r Arglwydd yn rhythu arno o'r tywyllwch, a chwerthin am ei ben. Ond yna daeth y weledigaeth.

Cododd gyda'r wawr ac aeth allan i'w feysydd: torrodd gymaint o ysgall ag a oedd wrth law, torrodd goflaid o eithin a drain, a thociodd ganghennau o fieri. Casglodd gymaint o chwyn ag a allai a gwneud baich o'r cyfan.

Ymlwybrodd at y capel bach ac wedi mynd i mewn a rhoi ei faich i lawr, casglodd yr holl flodau a llysiau a ffrwythau a'u cludo i'r twll dan y capel lle cedwid y tanwydd.

Yna dechreuodd wisgo'r pulpud â drain a mieri, rhoddodd yr eithin hyd linteri'r ffenestri, yr ysgall a'r chwyn i hongian wrth yr hoelion a oedd yma ac acw yn y muriau. Aeth adref i'w frecwast "fel gŵr yn dyfod yn ôl o faes rhyfel wedi buddigoliaeth fawr".

Roedd cynulleidfa cyfarfod gweddi deg o'r gloch yn lluosog, ond dyna sioc! Rhythai pob un ar ei gilydd a meddai Samuel Jones dan ei anadl "Gweddïwch nawr y cnafon!"

Erychai Mr Herbert Y Fron yn chwerw, a phan alwodd ar William Jones, Gwern y Ffynnon i ddod ymlaen, ysgwyd ei ben wnaeth yntau. Galwodd ar Huw Edwards, y saer maen, a oedd eisoes wedi paratoi gweddi a fuasai'n sôn am "gucemerau, pompionau a phomgranadau".

Ysgwydodd yntau ei ben. Dechreuodd pob un edrych ar ei gilydd unwaith eto, nes i Samuel Jones ei hun fynd ymlaen i'r sêt fawr. Troes i syllu ar y drain a'r mieri a'r eithin a'r ysgall, yna agorodd y Beibl.

Ni ddarllennodd lawer, ond dyma'r geiriau: *"Er i'r ffigysbren na flodeuo, ac na byddo ffrwyth ar y gwinwydd, gwaith yr olewydd a balla, a'r meysydd ni roddant fwyd, torrir ymaith y praidd o'r gorlan, ac ni bydd eidion yn eu beudai, eto mi a lawenychaf yn yr Arglwydd; byddaf hyfryd yn Nuw fy iachawdwriaeth. Yr Arglwydd yw fy nerth, a'm traed a wnaeth fel traed ewigod, ac efe a wnaeth i mi rodio ar yr uchel-leoedd".*

Cynhaliwyd cyfarfod gweddi weddill y dydd heb i neb symud y drain a'r mieri a'r ysgall a'r chwyn.

Mae Tegla yn gorffen y stori fel hyn: *"Gweddïodd llawer yn eu tro, ond adwaenir yr ŵyl honno hyd heddiw, yn nhraddodiad y fro, fel Cyfarfod Diolchgarwch Samuel Jones, Yr Hendre".*


**LYNN JONES**

Aelod o FIMBRA

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

30 Highfields, Llandâf,
Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816



**Ar Werth**

**Telyn pedalau Stumpff.**
**Cyflwr da.**
**Pris tua £1,800**

**Malynion pellach**
**0222 618 268**

# Annwyl Ddinesydd

## DIFFODD Y GYMRAEG

Yn sgîl penderfyniad Touch AM i ddileu'r rhaglen Gymraeg Cadw Cwmni, hoffwn ddiolch fel cyflwynydd a chynhyrchydd y rhaglen am y chwe mlynedd diwetha i'r llu o bobl a gyfrannodd i'r rhaglen.

Diolch i'r gwrandawyr i gyd, yn enwedig y rhai a ffoniodd gyda'u cyfarchion a'r rhai a gymerodd ran yn y cystadleuthau di-ri. Diolch i'r cwmnïau recordiad a'r grwpiau a anfonodd dapiau a disgiau, a'r gweisg a anfonodd lyfrau a chylchgronau.

Rhaid diolch hefyd i'r criw o gynorthwywyr a ddaeth drwy wynt, haul, glaw ac eira i ateb galwadau ffôn mofyn recordiau o'r llyfrgell yn ystod y rhaglen herwydd cais arbennig, gwneud y coffi (os byddai amser!) – oni bai amdanyn nhw fydden ni heb gyflawni hanner y pethau wnaethon ni.

Mae maes arall o Gymreictod wedi diflannu.

Derec Brown
Llandaf

Carwn dynnu sylw eich darllenwyr at benderfyniad diweddar Radio'r Ddraig Goch i ddiddymu eu rhaglen Gymraeg.

Fel y gwyddoch, efallai, bu Derec Brown yn cyflwyno'r rhaglen Cadw Cwmni bob nos Sul ar orsaf Touch AM – sy'n perthyn i Radio'r Ddraig Goch. Ond ar 15 Medi daeth y rhaglen i ben ar ôl un mlynedd ar ddeg o ddarlledu ers cyfnod CBC.

Golyga hyn nad oes unrhyw ddarpariaeth i Gymry Cymraeg ar radio annibynnol yng Nghaerdydd – er gwaetha'r cynnydd sylweddol a fu mewn nifer y dysgwyr ym Morgannwg Ganol a Gwent dros y blynyddoedd diweddar.

Mae'n siwr y cytunwch bod y sefyllfa hon yn gwbl annerbyniol, ac felly a gaf i annog eich darllenwyr i bwyso ar Radio'r Ddraig Goch i adfer eu darlledu yn y Gymraeg cyn gynted ag y bo modd.

Alun Thomas
Aberpennar

# Byd y Bol

## DAFYDD SAER DROS Y STÔF

Wedi angladd fy niweddar gath, roeddwn wedi gwahodd rhai dwsinau o'i chyfeillion mwyaf mynwesol yn ôl i'r tŷ ar gyfer te angladd. Darperais fwffe rhagorawl ar eu cyfer – seigiau quorn, bodiau pysgod llysieuol dibysgod Linda McCartney, a soseri o laeth soya.

Wrth i'r cathod larpio, sgwrsio ac ymlyfu, daeth gwaedd o'r drws nesaf – "Ai! Ai! Ai! Ai! Udzu!" (roedd fy nghymydog yn ymarfer gwaedd ryfel Zulu ar gyfer datganiad mewn rhyw ŵyl yn Sain Ffagan).

Er mawr siom i mi, parodd y sŵn aflafar i'r cathod wasgaru i bob cyfeiriad, gan adael y danteithion darparedig yn weddill gwastraff. Fel arfer byddaf yn anfon gweddillion bwyd at fy ffrind Meirwinen 'Speedy' de Gonzales yn y Wladfa, iddi gael eu defnyddio fel gwrtaith yn ei gardd lysiau organig.

Yn ei thro, mae hithau yn anfon rysetiau traddodiadol o Dde'r Amerig ataf. Felly, y mis hwn, hen rysáit o'r Wladfa, ar gyfer dau berson.

**Ffa Pob Cwm Hyfryd**

1 tun 16 owns o ffa pob
1 owns o bowdwr chilli
10 pupur jalapeño
2 taco

Gwresogwch y ffa mewn sosban ar wres isel. Yn y cyfamser torrwch y pupur jalapeño, a'u rhoi ynghyd â'r powdwr chilli yn y sosban gyda'r ffa.

Pan fo'r cwbl wedi llwyr gynhesu, llenwch y tacos â'r gymysgaeth, a bwytwch y cwbl cyn gynted â phosib.

Cadwch bapur tŷ bach wrth law – gorau i gyd os medrwch chi fwyta'r pryd yng nghyffuniau, neu well fyth, ar y tŷ bach.

Nid wyf wedi cael cyfle i brofi'r wledd hon eto, ond mae Meirinwen yn fy sicrhau ei fod yn bryd blasus a maethlon, a mwynhaodd ci drws nesaf gegiad ohono cyn trigo'n ddisymwth.

# BYGWTH Y GLAS Â'R GLEISION

## RHYS PARRY YN BARNET

Ar ôl bwrw'u pretinsiaeth y tu allan i'r Gynghrair, mae Barnet bellach yn mwynhau ei lordio hi gyda mawrion y Bedwared Adran, ac yn eu tymor cyntaf maent eisoes yn un o'r ceffylau blaen.

Eto roedd si ar led nad oedd y newydd-ddyfodiaid yn edrych ymlaen at ymweliad Caerdydd â Barnet. Dafydd yn poeni rhag ofn cael cweir gan Goliath siwr o fod. Ond gwir ofid Barnet oedd y mewnlifiad o gefnogwyr Caerdydd. Roedd rhywun wedi cael hwyl ar godi bwganod.

Teg dweud na fyddai neb yn camgymryd cefnogwyr Caerdydd am drip Ysgol Sul, ond ffwlbri oedd yr ymateb i'w hymweliad ddydd Sadwrn, 28 Medi.

Wrth gwrs, roedd disgwyl i Barnet fod yn or-ofalus a sicrhau na fyddai neb yn eu barnu am fod yn esgeulus yn eu trefniadau ar gyfer yr ymwelwyr. Roedd pawb yno'n amlwg wedi clywed am y cythrwfl fu yn Scarborough ar ymweliad cyntaf Caerdydd â'r dref honno rai blynyddoedd yn ôl. Nid oedd codi pais i fod y tro hwn.

Ond gor-ymateb fu hanes Barnet. Dadorchuddiwyd ffens newydd a does wybod faint o drafod dwfn a wnaed â'r Mèt wrth baratoi'r croeso â gafwyd.

Pwy oedd yno'n ein disgwyl yn yr orsaf ond y cafalri. Rhag ofn bod un neu ddau ohonoch yn anghyfarwydd â dod wyneb yn wyneb â phlismyn ar gefn ceffyl, gallaf eich sicrhau bod tyndra a sefyllfaoedd ymfflamychol yn eu dilyn.

Er yr holl hyfforddi arnynt, mae eu presenoldeb yn beryg ynddo'i hun. Yng nghanol bwrlwm y dorf nid peth hawdd mo cadw rheolaeth or geffyl a'i atal rhag sgrialu drwy'r dorf.

Dwi ddim yn amau bod nifer o ddoethusion hefyd wedi ysgrifennu traethodau yn pwysleisio gwendidau defnyddio ceffylau i gadw trefn ar dyrfaoedd, ond ar hyn o bryd nid oes sôn am newid polisi gan yr heddlu. Maent yn ddigon bodlon i barhau i drin cefnogwyr fel baw a'u hamgylchynnu a'u tywys fel anifeiliaid.

Yn y fath awyrgylch does ryfedd bod unigolion yn diflannu, y bwlch rhwng y ddwy garfan yn ehangu, a phawb yn colli'r gallu i resymu.

Mae'n edrych fel petai'r heddlu yn ymfalchïo yn yr awdurdod sydd ganddynt ac yn gwneud eu gorau glas i'w gamddefnyddio. Yr enghraifft amlycaf o hyn yw'r modd maent yn 'hebrwng' unigolion o'r maes yn ystod gêm am 'ganu neu ddathlu mewn modd bygythiol'.


Mae fel petai'r gleision eraill hynny yn cystadlu ymysg ei gilydd am eu fersiwn hwy o'r Golden Boot.

Gwell dweud nad yw'n fwriad gennyf barddu'r heddlu a'u bod ar y cyfan wedi bod yn ddigon teg yn Barnet, ond rhaid codi pwyntiau sylfaenol ynglŷn â'u tactegau.

Roedd gormod ar ddyletswydd yno, rhes ddi-dor o'r cae hyd at y bysiau a'r orsaf. Eu nod wrth gwrs yw cadw rheol a threfn, ond drwy fod yn ymosodol a bygythiol y cyflawnir hyn. Af i ddim mor bell â'i alw'n bolisi o wrthdaro, ond nid ydynt yn gwneud dim i leddfu unrhyw densiwn sy'n ffrwtian dan yr wyneb, a bydd ambell un yn fwy na bodlon i roi tro i'r briwas.

Nid wyf yn amau bod tasg anodd a di-ddiolch ganddynt yn aml wrth geisio cadw trefn, ond dro arall maint a natur eu presenoldeb yw'r sbardun. Felly roedd hi y dydd Sadwrn hwnnw yn Barnet, ond yn ffodus bychan fu'r gwrthdaro a llwyddwyd i dawelu'r sefyllfa cyn i bethau fynd dros ben llestri.

A'r gêm? Buddigoliaeth i Barnet, er mai Caerdydd fu'n rheoli. Digon o bethau i'w canmol, ond y jig-so ddim yn gyflawni eto.



# LLWYDDIANT CANNES YNG NGHAERDYDD

Un o lwyddiannau mawr Gŵyl Ffilmiau Cannes gychwyn yr haf eleni oedd dangos cynhyrchiad diweddaraf Ffilm Cymru, Un Nos Ola Leuad.

Yn ôl o'r cyfandir, mae'r ffilm erbyn hyn ar daith o gwmpas Cymru, ac yn ymweld â chanolfan Chapter yng Nghaerdydd o 17 hyd 19 Hydref.

Cyfarwyddwyd y ffilm yn Eryri gan Endaf Emlyn, gyda Dyfan Roberts ym mhrif ran Y Dyn, yn seiliedig ar nofel glasurol Caradog Pritchard. Addaswyd Un Nos Ola Leuad i'r sgrin gan Gwenlyn Parry ac Endaf Emlyn.

Ganed a magwyd Caradog Pritchard ym Methesda, a sôn am y gymdeithas honno a'i dylanwadau ar unigolion y mae'r ffilm, ac yn datgelu plentyndod gwr drwy gyfres o atgofion sy'n cyrraedd pinacl gyda llofruddiaeth anesboniadwy.

Mae'r Dyn a'r Bachgen, sydd yn gysylltiedig â'i gilydd drwy ffawd, y cerdded llwybr cyffredin drwy bentref yng ngolau'r lleuad, ac yn agosach hyd yn oed i'r llyn du yn y mynydd lle cyflawnwyd y llofruddiaeth.

Daw ysbrydion eu gorffennol cythryblus i aflonyddu'r siwrnai; delweddau o angylion; defodau Cristnogaeth; a'r obsesiwn holl bresennol am Y Fam.

Dangosir Un Nos Ola Leuad yn Chapter ar 17, 18 a 19 Hydref, tocynnau drwy ffonio 396061. Rhan o elw'r dangosiadau i'r Dinesydd.

# C O F I O

## ROWLAND OWEN

## YN EDRYCH YMLAEN I'R WYL GERDD DANT

Ond yw bobol yn bethe od – un funed ma nhw'n gweud ych bod chi'n mynd yn hen os ych chi ffili cofio pethe, a wedyn yn troi rownd a gweud taw arwdd o henaint yw e pan chi'n dwyn atgofion drw'r amser!

Falle taw'r ffaith bo fi wedi cwpla gwaith sy tu ôl i'r arferiad newydd 'ma o ddechre meddwl am yr hen ddyddie, ond cyn i chi weud dim mae'n deg i fi'ch atgoffa chi bo fi wedi riteiro'n gynnar, yn gynnar iawn i weud y gwir achos dwy'i ddim yn hen 'to.

Erbyn wthnos nesa bydd plant ar gornel sawl hewl yn casglu arian ar gyfer Guto Ffowc truenus sy'n gorwedd ar y pafin yn y gole sy'n dod o ffenest y siop – sdim byth digon o stwffin yn eu goese fe iddo fe gâl aros yn erbyn y wal. Erbyn diwedd y mish fe fyddwn ni'n gweld y pabi coch sy'n dwyn atgofion trist nôl i gyment o fobol.

Yn y Neuadd Goffa yn y Barri ar Dachwedd yr ail bydd cystadleuwyr llawn hwyl yn llenwi'r neuadd â bywyd a diwylliant Cymreig. Falle taw'r penwythnos canlynol fydde wedi bod yn ddewish cynta gan y rhai sy'n dilyn yr Ŵyl yn flynyddol ond, whare teg i'r dre, sdim yn y byd all newid y drefen o ddefnyddio'r lle ar gyfer y rheswm y codwyd hi – dros Sul y Cadoediad – i gofio'r rhai wnaeth yr aberth mwyaf yn y Rhyfel Mawr a'r Ail Ryfel.

Odych chi'n cofio inni'ch gwahodd chi cwpwl o fishodd yn ôl i ddod mâs i'r Fro i enjoio tipyn o ddiwylliant Cwmrâg yng Ngŵyl Cerdd Dant Bro Morgannwg? Nag ych chi? Jiw, ma'ch oedran chi'n dechre dala lan 'da chithe! Wrth gwrs bo chi'n cofio – dim ond ishe câl ych atgoffa ôch chi!

Licech chi gystadlu? O, wi'n flin ond ma'r dyddiad cau wedi paso, ond dyw hi ddim yn rhy hwyr i chi gymryd rhan fel stiward, ne helpu 'da peth o'r gwaith arall fydd i neud ar y dydd.

Odi, odi, fi'n gwbod taw ny'r dwyrnod ma ffeinal Cwpan Rygbi'r Byd, ond hyd yn ôd os na allwch chi ddod i'r sesiwn pnawn, yn dechre canol dydd, allech chi ddod i'r cyfarfod nos sy fod i ddechre am 5.30pm. Newch nodyn o'r dêt nawr, cyn i chi anghofio, 2 Tachwedd.

# Y L L O N A ' R L L E D D F

***Geni***

- Aled Wyn a Meinir Phillips, bachgen o'r enw Ianto Llwyd
- Mab i Leonie a Huw Hall Williams, seithfed wyr Nia a Richard Hall Williams
- Alun Ceri Jones a Linda Leach, bachgen o'r enw Padrig Owen, brawd i Daniel
- John Keys ac Alison, merch y Parch a Mrs Haydn Thomas, bachgen o'r enw James Alexander

***Dyweddio***

- Bethan Sian Lewis a Tony Reeves

***Priodas***

- Manon a Jeremy Williams

***Profedigaeth***

- Myra ac Emyr Jenkins, Manon a Ffion o golli mam a mamgu

## y Calendar

**7 a 8 HYDREF**
Hwyl a Fflag yn perfformio Hualau gan Emyr Humphreys, Theater y Sherman, 8.00pm

**11 HYDREF**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd. Doniau lleol.

Cymrydodrion Caerdydd. Arwisgo'r llywydd newydd. Capel Minny Street am 7.15pm.

**14 HYDREF**
Merched y Wawr Caerdydd. Noson gerddorol gyda Wynne Lloyd.

**16 HYDREF**
Clwb Cam Ymlaen, Ty'r Cymry, Heol Gordon, 8.00pm

**17 HYDREF**
Cronfa Achub y Plant. Cyngerdd yn Eglwys Dewi Sant gyda Chôr Poliffonig Caerdydd a thelynores Llwchwr. Tocynnau wrth y dres £3 neu £1.50 i fyfyrwyr.

**18 HYDREF**
Cylch llyfryddol Caerdydd. Pwy Piau'r Gân gan Manon Rhys a T James Jones.

**19 HYDREF**
Cymdeithas Carnhuanawc. Euskal Herria – Tiroedd y Bag. Ned Thomas. Clwb Ifor Bach, 8.00pm.

**30 HYDREF**
Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro. Siaradwr Richard Hall Williams.

**2 TACHWEDD**
Clwb Ifor Bach, Ail Symudiad.

**4 TACHWEDD**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys, Hoff Gerddoriaeth, Eglwys Sant Pedr.

**5 TACHWEDD**
Cymdeithas Minny Street. Noson yng ngofal Aled Gwyn.

**6 TACHWEDD**
Darlith Goffa G J Williams gan yr Athro Emeritws AOH Jarman, Y Gododdin. Ystafell 2.1 Adeilad y Dyniaethau, Coleg Caerdydd, 6.00pm.

# ANFERTHEDD YN DENU Y SYLW

## BACCHAI

Mae cynhyrchiad Dalier Sylw o'r Bacchai gan Ewripides yn ystod Gŵyl Caerdydd yn gyfuniad unigryw o nawdd a haelioni masnachol a gwefreiddedd theatrig gyfoes.

Perfformir y cynhyrchiad, dan gyfarwyddyd Ceri Sherlock, rhwng 12 a 19 Hydref ar safle ffatri Memory Lane yn Llanisien.

Perswadiwyd y cwmni i ohirio'u cynllun i ddymchwel hen warws er mwyn rhoi cartref i'r cynhyrchiad anghonfensiynol hwn.

Gweddnewidiwyd yr adeilad 15,000 troedfedd sgwâr gan Memory Lane, gan sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn dal dŵr yn ystod y cynhyrchiad. Trawsffurfiwyd y lle hefyd i gynnwys stafelloedd newid a thoiledau, a llenwir y gofod perfformio anferth gan gynlluniau uchelgeisiol Eryl Ellis, fu'n gweithio fel cynllunydd i'r RSC a'r Royal Ballet.



Bwriadwyd hefyd osod system wresogi, ond rhoddwyd y syniad hwnnw o'r neilltu ar gyfer sicrhau bod y sain a'r goleuo'n gywir. Y cyngor i'r gynulleidfa felly yw gwisgwch ddillad cynnes.

Er mwyn cyflenwi trydan digonol ar gyfer offer goleuo gwerth £40,000 y cynhyrchiad, yn ogystal â'r system sain fawreddog, tyrchodd Trydan De Cymru ran o Heol Caerffili i osod ceblau newydd ar gyfer y pŵer.

Yn ôl Dalier Sylw, "mae llawer mwy i'r Bacchai na maint y cynhyrchiad. Rydym ni gyd wedi'n cynhyrfu gymaint nes bod pobol – llawr o bobol – yn gweithio nos a dydd i sicrhau ei fod yn llwyddo".

Cynhelir perfformiadau Cymraeg a Saesneg o'r Bacchai. Dyddiadau'r perfformiadau Cymraeg yw 12, 14, 15 a 19 Hydref, yn dechrau am 8.00pm. Tocynnau ar gael o Swyddfa'r Cynhyrchiad: 464753; Chapter 399666; ac o Oriel 395548.


Gŵyl Caerdydd

Peidiwch â cholli'r

BACCHAI

gan Dalier Sylw

★★★ Archebwch nawr★★★

Gwerthwyd pob tocyn ar gyfer cynhyrchiad diwethaf y cwmni Hunllef yng Nghymru Fydd

Perfformiadau yn Gymraeg
**12, 14, 15, 19 o Hydref am 8.00pm**

Perfformiadau yn Saesneg
**16, 17, 18 o Hydref am 8.00pm**

Lleoliad: Safle Memory Lane
Ffordd Caerffili, Caerdydd

Swyddfa Docynnau
**0222 464758**
Pris £6.00 (gost. £3.00)
Hefyd ar gael o
Chapter, Market Road, Caerdydd: 399666
Oriel, Heol Ty'r Brodyr, Caerdydd: 395548

Noddir y cynhyrchiad gan

TAC ATSAIN ELECTRICITY

Mae Dalier Sylw yn gweithio gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a Chyngor Sir De Morgannwg



Cwmni Theatr Gwynedd

yn cyflwyno
**Drama Fuddugol Cystadleuaeth Tlws y Ddrama Eisteddfod Bro Delyn**

**DIM OND HENO**

gan Gwion Lynch

yn Theatr y Sherman, Caerdydd
nos Lun a nos Fawrth
11-12 Tachwedd am 7.30yh
Swyddfa Docynnau: Caerdydd (0222) 230451



**Gŵyl Cerdd Dant Cymru**
**Bro Morgannwg**

**yn**
**Y Neuadd Goffa, y Barri**
**Sadwrn 2 Tachwedd 1991**
**am 12.00 a 5.30 o'r gloch**

**Mynediad:**
**Prynhawn £2.00, Hwyr £2.50**
**(y ddau gyfarfod am £4.00)**
**Plant hanner pris**

# RHAN ANNATOD O FYWYD CYMRU



Y BYD AR BEDWAR



ELINOR



FFINIAU



CHIZ



O VAUGHAN I FYNWY



LLIO-LLIW'R CYFANDIR



GREAT EXPECTATIONS



WALES AT SIX



PRIMETIME

HTV CYMRU

DOD Â'R CYMRY AT EI GILYDD

BANGOR CAERDYDD CAERFYRDDIN YR WYDDGRUG